# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Dyblu**<br>(Rhifau hyd at 20.) |
| Adnoddau: | • Llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Dyblu’.<br>• Numicons.<br>• Côns a hwpiau.<br>• Byrddau pegiau.<br>• Clai a darnau lego o amrywiol faint. |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>• Darllen y llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Dyblu’.<br>• Trafod y cynnwys.<br>• Ymarfer dyblu drwy osod y dysgwyr mewn grwpiau, e.e dwbl 4 yw 2 grŵp o 4 dysgwr. Yna cyfri’r cyfanswm.<br>• Gwneud hyn gyda phob rhif hyd at 10.<br><br>**<u>Cam 2: Numicons</u>**<br>Dangos dwbl pob rhif o 1 i 10 gan ddefnyddio’r numicons.<br>Cyfri’r tyllau er mwyn canfod yr ateb bob tro, yna ymarfer dweud y frawddeg ‘**Dwbl ____ yw _____.**’<br><br>**<u>Cam 3: Lego a chlai</u>**<br>Gofyn i’r dysgwyr rowlio’r darn clai yn fflat ar y bwrdd clai, fel toes pitsa.<br>Gofyn amrywiol gwestiynau iddynt/rhoi cyfrifiadau iddynt, e.e. ‘Beth yw dwbl 2?’<br>Y dysgwyr i ddangos hyn yn y clai drwy ddefnyddio darnau lego, e.e. gwasgu lego 2 yn y clai ddwywaith a chyfrif y smotiau/tyllau.<br>Gwneud hyn gyda llawer o amrywiol rifau.<br><br>**<u>Cam 4: Byrddau pegiau</u>**<br>Gofyn amrywiol gwestiynau i’r dysgwyr/rhoi cyfrifiadau iddynt, e.e.‘Beth yw dwbl 3?’<br>Gofyn i’r dysgwyr ddangos hyn drwy osod dwy res o begiau o dan ei gilydd, e.e. dwbl 3 yw 2 res o dri pheg. Cyfrif cyfanswm y pegiau i ddarganfod yr ateb. Gwneud hyn gyda llawer o amrywiol rifau. |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 5: Ardal allanol</u>**<br>Gofyn amrywiol gwestiynau i'r dysgwyr/rhoi cyfrifiadau iddynt, e.e. 'Beth yw dwbl 5?' Gofyn iddynt ddangos y cyfrifiad drwy rhoi côns mewn 2 hŵp sydd o dan ei gilydd, e.e. dwbl 5 yw 5 côn mewn un hŵp, ac yna 5 côn yn yr hŵp arall. Cyfrif y cyfanswm. Gwneud hyn gyda llawer o amrywiol rifau. |
| Cwestiynu: | • Beth yw dwbl _______?<br>• Fedri di ddangos dwbl 5 i fi? |
| Beth nesaf? | Dyblu rhifau sy'n fwy na 10. |

